# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen Derfynol y Gwaith Gwerth am Arian ar gyfer 2001-2002

*Wedi ei cyflwyno i'r Pwylllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Tachwedd 2000**

# Rhaglen Derfynol y Gwaith Gwerth am Arian ar gyfer 2001-02

### Cyflwyniad

1. Yn eu cyfarfod ar 19 Hydref 2000, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio fy amcangyfrifiad am y flwyddyn ariannol 2001-2002 gan ystyried fy memorandwm ar fy mlaen raglen arfaethedig ar werth am

arian ar gyfer 2001-2002 a thu hwnt (AC-07-00 tud.3). Mae'r memorandwm hwn yn nodi rhaglen y gwaith gwerth am arian yr wyf wedi ei chymeradwyo ar gyfer 2000-2002. Mae'r nodyn yn disgrifio hefyd sut yr wyf wedi gwneud newidiadau i'r cynigion a gynhwyswyd yn y memorandwm ac a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ddiweddar yn dilyn y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aelodau, naill ai trwy ohebiaeth neu yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ym mis Hydref.

**Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian ar gyfer 2001-2002**

2. Mae'r materion yr wyf wedi penderfynu eu cynnwys yn fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2001-2002 fel a ganlyn:

a. gwasanaethau glanhau ysbytai;
b. gwasanaethau arlwyo ysbytai;
c. addysg a hyfforddiant nad ydynt yn feddygol;

(ch) adroddiad ar gynnydd caffael yn y sector Addysg Bellach;

d. rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;

(dd) Cymorth Dewisol Rhanbarthol;

e. y gwaith o weinyddu grantiau adnewyddu tai;
f. y rhaglen gwella priffyrdd;

(ff) strategaeth a threfniadau caffael TG y Cynulliad; ac

g. arolwg o adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

3. Mae'r newidiadau yn fy rhaglen o'u cymharu â'm cynigion cychwynnol a drafodwyd gan y Pwyllgor ym mis Hydref fel a ganlyn.

4. Rwyf wedi ychwanegu at y rhaglen archwiliadau ar:

- grantiau adnewyddu tai, yn ôl cais gan yr aelodau. Gan fod grantiau o'r fath yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol lle y cyfyngir ar fy hawliau mynediad i, bydd yr archwiliad hwn yn cynnwys cydweithrediad gyda'r Comisiwn Archwilio; a
- Cymorth Dewisol Rhanbarthol, y cafwyd cais gan yr aelodau i'w symud o 2003-04 i ddyddiad cynharach.

5. Bydd yr archwiliadau pwysig hyn a allai fod yn rhai mawr yn disodli tri archwiliad llai yr wyf wedi eu dileu o'm cynnig gwreiddiol: Cyswllt Busnes, diogelwch llifogydd, a'r cynllun premiwm defaid

blynyddol. Ar hyn o bryd, mae’r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystyried rhinweddau’r gwasanaeth Cyswllt Busnes , fel rhan o’i arolwg o wasanaethau cymorth a datblygiad busnes. Ni fyddai’n briodol i mi archwilio Cyswllt Busnes ymhellach, o leiaf nes bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi cwblhau ei arolwg ac wedi cynnig argymhellion i’r Gweinidog. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr arolwg hwn, hwyrach y byddaf yn cynnwys archwiliad o’r gwasanaeth fel rhan o’m rhaglen gwerth am arian yn y dyfodol.

6. Nid oedd modd i mi ddatblygu fy nghynnig am archwiliad o amddiffyniadau rhag llifogydd yng Nghymru yn sgîl y digwyddiadau diweddar. Cyhoeddwyd arolwg manwl ar ddull gweithredu effeithiol cyrff amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru gan Y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn y Cynulliad ar 31 Hydref, yn dilyn y difrod a’r aflonyddwch eang a brofwyd ar draws y wlad o ganlyniad i’r llifogydd. Eto, gan ddibynnu ar ganlyniad yr arolwg hwn, hwyrach y byddaf yn dychwelyd at y mater hwn yn y dyfodol.

7. Roeddwn o’r farn bod fy archwiliad arfaethedig o’r cynllun premiwm defaid blynyddol yn is ei flaenoriaeth na’r ddau fater a ychwanegais at y rhaglen ar gais aelodau’r Pwyllgor. Mae’r Gyd - Fenter dros Wasanaethau’r Llywodraeth ar draws Gymru (Jigsaw), rhaglen dair blynedd a ddechreuodd yn Ebrill 1999, yn mynd i newid y ffordd y cyflwynir holl rhaglenni CAP yng Nghymru yn sylweddol, gan gynnwys y cynllun premiwm defaid blynyddol. Rwy’n cynnig archwilio effeithiau’r cynllun hwn yn 2002-03.

8. Yn ychwanegol at y newidiadau hyn i’m rhaglen ar gyfer 2001-02, ac yn unol â newidiadau amser ac adnoddau eraill, cynigiaf hefyd gychwyn archwiliad yn hwyrach yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Byddaf yn edrych ar y ffactorau a arweiniodd at gau’r Ganolfan yn gynharach eleni, ychydig dros flwyddyn ar ôl iddo agor. Bydd hwn yn ddarn o waith gweddol fyr a sydyn a fydd yn rhoi’r cyfle i’r Pwyllgor ystyried mater sy’n bur amserol. Bydd hefyd yn rhoi’r cyfle i mi, a’r Pwyllgor, archwilio’r cyfrifoldebau cymhleth sy’n amgylchynu’r prosiectau a ariennir gan y loteri yng Nghymru. Er fod y llif arbennig hwnnw o arian yn ddarostyngedig i archwiliad gan y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol, gosodir cyfrifon y ddau gorff dosbarthu loteri yng Nghymru gerbron y Senedd a’r Cynulliad. Hefyd, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwy’n archwilio prif cyfrif Cyngor Celfyddydau Cymru, sy’n cynnwys cyllid refeniw ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

9. Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi’r angen i mi fod yn ymatebol i amgylchiadau newidiol. Ar adegau, rwyf wedi cyflawni gwaith ychwanegol, nas cynlluniwyd ar gyfer y Pwyllgor, megis briffio ar gyfer ei sesiwn ar Goleg Gwent a’r gwaith o baratoi papurau ar drefniadau disgyblu’r heddlu a gwerth gorau. Mae costau cyfle yn gysylltiedig â gwaith ychwanegol. Yn ogystal, gallai gweithgareddau gan y Cynulliad a ffactorau eraill olygu nad yw’n synhwyrol i barhau gydag archwiliadau yn y flwyddyn ariannol hon gyda’r amseru a ragwelwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, er bod staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi cwblhau eu gwaith cynllunio ar reoli’r ystâd Addysg Uwch, cynigiaf ohirio’r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn nes gwanwyn y flwyddyn nesaf pan fydd y Cyngor Cyllido wedi derbyn yr holl strategaethau ystadau wrth yr athrofeydd. Dylai’r Pwyllgor felly fod yn ymwybodol y gallai fy rhaglen arfaethedig i o archwiliadau ar gyfer 2001-2002 fod yn ddarostyngedig hefyd i newid pellach yn dilyn datblygiadau, er yn anhysbys ar hyn o bryd, yn y dyfodol. Yn naturiol byddaf yn

ymdrechu i gadw unrhyw newidiadau pellach i leiafswm. Yn enwedig, byddaf yn sicrhau fy mod yn darparu deunydd i'r Pwyllgor ar y meysydd hynny ar gyfer archwiliad y mae'r aelodau wedi mynegi diddordeb mawr ynddynt, megis y gwaith o lanhau ac arlwyo ysbytai.

10. Bydd y gwaith ar fy rhaglen o archwiliadau ar gyfer 2001-2002 yn dechrau ar 1 Ebrill 2001 neu ar ôl hynny. Er hyn, ni fydd y gwaith ar rai materion yn dechrau tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2001-02. Penderfynir ar ddyddiadau cychwyn bob archwiliad ar ôl i mi eu cwblhau ac ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried fy archwiliadau 2000-2001, yn ogystal ag unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'r pwnc dan sylw. Bydd hyn yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, y bydd yr adroddiadau cyntaf a fydd yn nodi canlyniadau fy archwiliadau 2001-02 ar gael i'r Pwyllgor eu hystyried tuag at ddiwedd blwyddyn galendr 2001 neu'n gynnar yn 2002.

11. Hydref nesaf, ailadroddir y broses hon pan fyddaf yn cyflwyno fy nghynigion cychwynnol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yn 2002-2003 a'r blynyddoedd dilynol i'r Pwyllgor.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**30 Tachwedd 2000**